

Hysbysiad Preifatrwydd



Pwy ydym ni?

Grŵp Cynefin yw'r Rheolydd Data gyda phrif swyddfa yn Nhŷ Silyn, Y Sgwâr, Penygroes, Caernarfon, Gwynedd LL54 6LY

Ffôn: 0300 111 2122.

Gallwch gysylltu gyda'r Swyddog Diogelu Data drwy e-bostio post@grwpcynefin.org.



Beth ydym ni'n ei wneud

1. Darparu tai **cymdeithasol** a mathau eraill o dai.
2. **Cynnal a chadw** a thrwsio eiddo a gerddi
3. Rheoli eich tŷ, eich tenantiaeth a'ch cyfrif rhent fel landlord



Rydym hefyd yn:

4. Trefnu ac yn helpu gyda digwyddiadau cymunedol



5. Cynnig cyfleoedd i gymryd rhan.

6. Rhoi cyngor ar les a budd-daliadau.

7. Trafod **addasiadau** sy'n cael eu gwneud i'r eiddo yr ydym ni'n ei reoli.

8. Prynu, gwerthu a datblygu eiddo.

9. Helpu gyda chefnogaeth i ddefnyddwyr gwasanaeth.



Mae Grŵp Cynefin eisiau

‘Darparu cartrefi a gwasanaethau rhagorol, datblygu cymunedau cynaliadwy lle mae pobl eisiau byw’.

Engbreiffiau o sut rydym ni'n casglu eich gwybodaeth

- pan fyddwch chi'n gwneud cais am un o'n tai
- llenwi un o'n ffurflenni
- pan fyddwch yn ein ffonio
- ysgrifennu atom
- ein e-bostio
- yn cwrdd â ni
- yn ymateb i arolwg
- mae'n bosib y byddwn hefyd yn casglu gwybodaeth pan fyddwch chi'n defnyddio ein safleoedd cyfryngau cymdeithasol a'n gwefannau.

Beth sydd angen i ni ei ddweud wrthyh chi

Mae galwadau ffôn 'landline' yn cael eu recordio ar gyfer pwrpasau hyfforddiant a monitro.

Rydym ni'n cadw'r galwadau sydd wedi eu recordio am gyfnod o 36 mis fel arfer.



Rydym ni'n defnyddio system **CCTV** (Close circuit television) yn swyddfa Grŵp Cynefin.

Mae hyn er mwyn atal troseddu.



O dro i dro mae'n bosib y byddwn yn defnyddio

- CCTV
- Recordiad sain
- Ffotograffiaeth

I gofnodi tystiolaeth fod rhywun yn torri eu tenantiaeth, yn cyflawni trosedd neu'n ymddwyn yn wrth-gymdeithasol.



Mae'n bosib y byddwn hefyd yn tynnu lluniau (ffotograffau)

- Yn ein **digwyddiadau**
- **O'n heiddo**
- Yn ein cymunedau



Byddwn yn gofyn i chi yn gyntaf cyn tynnu llun ohonoch ar gyfer marchnata a chyhoeddusrwydd cyffredinol.

Dim ond gyda'ch caniatâd chi y bydd lluniau yn cael eu defnyddio am y rhesymau yma.



Mae'n bosib y byddwn yn cael gwybodaeth amdanoch o lefydd eraill, gan gynnwys:

- Eich cyngor neu'r swyddfa budd-daliadau (Bydd hyn am eich sefyllfa tai)
- Eich landlordiaid blaenorol
- Asiantaethau credyd pan fyddwch chi'n gwneud cais am dŷ
- Yr Heddlu, sefydliadau lles neu gefnogaeth sy'n gweithio gyda chi.
- Cyngorwyr, Aelodau Seneddol neu gynrychiolwyr eraill yr ydych chi wedi gofyn i ni weithio gyda nhw ar eich rhan.
- Sefydliadau ariannol, megis banciau, cwmnïau cardiau credyd ac yn y blaen.
- (pan fyddwch chi'n gwneud cais am ein gwasanaethau)




Pa wybodaeth ydym ni'n ei gasglu amdanoch

- Enw llawn (a thystiolaeth o'ch hunaniaeth/ llun adnabod)
- Dyddiad geni
- Rhif Yswiriant Cenedlaethol (eich cod adnabod unigryw)
- Manylion cyswllt (ffôn, cyfeiriad e-bost neu gyfeiriad ar gyfer gohebiaeth)
- Manylion unrhyw un sydd â chaniatâd i siarad neu weithredu ar eich rhan.



- Manylion perthynas agosaf
- Manylion sylfaenol (enw, dyddiad geni, rhyw, ac iaith gyfathrebu ddewisol) yr holl bobl sy'n byw yn y tŷ.
- Manylion bancio os ydych chi'n talu'ch rhent drwy Ddebyd Uniongyrchol
- Manylion credyd os ydych chi'n talu â cherdyn (Ni chaiff manylion cerdyn eu cadw)
- Tystiolaeth eich bod chi'n gymwys am dŷ (manylion am berchnogaeth/ fod yn rhan berchennog eiddo arall, unrhyw incwm/ budd-daliadau)
- Cyfriflenni banc, slipiau cyflog neu fanylion incwm
- Gwybodaeth bersonol arall sy'n unigol i chi fel y gallwn addasu ein gwasanaeth i'ch anghenion



Mae'r wybodaeth y byddwn ni'n ei gasglu amdanoch er mwyn gallu cwrdd â'ch anghenion a chynnig y gefnogaeth gywir yn cynnwys:


- Anableddau, gwendidau a nodweddion a warchodir, pethau fel:
 - oed
 - anabledd
 - ailbennu rhywedd
 - priodas a phartneriaeth sifil
 - beichiogrwydd a mamolaeth
 - hil / tarddiad ethnig



- crefydd neu gred



- rhyw



- cyfeiriadedd rhywiol er enghraifft – hoyw, lesbiad, trawsrywedd, deurywiol.

- Gwybodaeth am eich iechyd



- Gwybodaeth am eich anghenion cefnogaeth



Mae angen i chi roi gwybodaeth i ni er mwyn i ni allu gweithio gyda chi. Os na fyddwch chi'n rhoi'r holl wybodaeth sydd ei angen, ni allwn gynnig ein holl wasanaethau i chi. Mae hyn yn golygu efallai na fydd yn bosib i chi rentu cartref gennym. Neu, efallai na fyddwch yn gallu gwerthu neu brynu tŷ gyda ni.



Beth ydym ni'n ei wneud gyda'r wybodaeth yr ydym yn ei chasglu

Defnyddir eich gwybodaeth i reoli eich tenantiaeth neu gytundeb les ddaliad. Neu gontract arall rhyngoch chi a Grŵp Cynefin. Darllenwch eich cytundeb yn ofalus os gwelwch yn dda.



Beth ydym ni'n ei wneud gyda'r wybodaeth y gwnaethom ei chasglu gennych chi:

- Rheoli eich taliadau cyfrif, gan gynnwys y biliau sy'n ddyledus.
- Rheoli gwaith trwsio, cynnal a chadw ac addasiadau yn ein heiddo.
- Sicrhau fod amodau tenantiaeth a chontract yn cael eu cadw. Er enghraifft byddwn yn defnyddio gwybodaeth sy'n cael ei gasglu i'n helpu i atal [ymddygiad gwrthgymdeithasol](#) a [thwyll](#).
- Rydym yn gweithio o fewn y gyfraith.

Bydd Grŵp Cynefin yn gofyn i chi am eich barn am sut mae pethau'n gweithio. Mae Grŵp Cynefin yn newid y ffordd y mae'n gweithio ar sail eich adborth chi.

Mae'ch gwybodaeth bersonol chi yn cael ei gadw'n ddiogel ar systemau Grŵp Cynefin ac yn cael ei storio'n ddiogel (pan ddefnyddir cofnodion papur)

Gwybodaeth am blant a thrigolion eraill yr eiddo

Dim ond os ydyn nhw yn byw yn un o'n tai y bydd Grŵp Cynefin yn prosesu gwybodaeth sylfaenol am blant



- Eu henw
- Rhyw
- Dyddiad geni

Mae angen hyn ar gyfer:

- Sicrhau nad yw'r eiddo yn orlawn
- Ein helpu i ddelio â materion tenantiaeth pan fydd angen i ni wybod oedran pawb
- Cynllunio cefnogaeth a helpu i gefnogi'r teulu



Mae'n bosib y byddwn yn cael gwybodaeth am y plant os ydym ni'n ymwneud ag achosion lles/ os gofynnir i ni helpu gydag asiantaethau megis yr Heddlu neu'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae hyn yr un fath yn achos unrhyw oedolion sy'n byw gyda chi.



Gwybodaeth am eiddo

Mae'r wybodaeth yr ydym yn ei defnyddio am ein heiddo yn cynnwys:

- oedran y gegin
- canlyniadau arolwg asbestos
- cynllunio ar gyfer ffenestri newydd
- gwybodaeth diogelwch nwy
- gwaith trwsio tap



Pan fydd manylion personol yn cael eu defnyddio ynghyd â gwybodaeth eiddo, mae hyn yn wybodaeth bersonol.



Sut byddwn ni'n cyfathrebu â chi

Bydd hyn yn cael ei wneud yn ysgrifenedig neu dros y ffôn fel arfer, ond gallai fod drwy e-bost.

Rydym yn symud llawer o'n gwasanaethau i fod ar-lein.

Er mwyn eu defnyddio byddwch angen cyfrifiadur a chyfeiriad e-bost.

Fel arfer, mae hyn yn fwy cyfleus i chi ac yn fwy effeithlon i ni.

Mae ein tenantiaid yn derbyn ein cylchlythyr 'Calon'.

Mae gwybodaeth ynddo am yr hyn sy'n mynd ymlaen yn Grŵp Cynefin.



Dim ond gyda'r rhai sy'n cael eu henwi ar y cytundeb tenantiaeth y byddwn yn trafod tenantiaeth.

Neu rhai sy'n cael eu hawdurdodi gennych i drafod drosoch chi dros dro neu'n barhaol.

Gallwch awdurdodi rywun dros dro ar lafar dros y ffôn, neu'n barhaol drwy roi caniatâd ysgrifenedig.

Gyda phwy rydym ni'n rhannu data

Mae Grŵp Cynefin yn rhannu data personol gyda'n contractwyr sy'n gwneud gwaith. Mae ein contractwyr a'n cyflenwyr yn darparu gwasanaethau i chi ac i ni.



Mae'n bosib y bydd ar Grŵp Cynefin angen rhannu gwybodaeth personol gyda'r canlynol:

- adrannau ac asiantaethau'r llywodraeth
- ein rheoleiddiwr a'n harchwilwyr
- awdurdodau lleol
- cymdeithasau tai eraill
- sefydliadau cefnogi



- sefydliadau partner sy'n darparu gwasanaethau cyfryngu ac eiriolaeth
- cwmnïau cyfleustodau
- sefydliadau ac asiantaethau eraill y mae gennym ni ganiatâd cyfreithiol i rannu'r data gyda hwy.

Mae'n bosib y bydd arnom angen rhannu gwybodaeth gyda'r canlynol hefyd:

- cyfreithwyr
- cwmnïau yswiriant
- broceriaid morgeisi
- ymgynghorwyr ariannol
- asiantaethau cyfeirio credyd
- asiantau llys
- syrfewyr
- prisiwr ynglŷn â gwerthu eiddo
- darparwyr hyfforddiant neu sefydliadau addysgol



Weithiau mae'n bosib y bydd dyletswydd arnom i rannu eich gwybodaeth dan y gyfraith gyda:

- Sefydliadau partner sydd â swyddogaeth debyg i'n un ni
- Cymdeithasau tai eraill
- Awdurdodau lleol, rheoleiddwyr ac adrannau llywodraeth
- Heddlu, gwasanaeth tân, neu'r awdurdod iechyd/ staff meddygol
- Eraill a allai fod angen gwybodaeth gennym er eu pwrpasau eu hunain. Ar gyfer atal neu ddatgelu trosedd, ar gyfer atal neu ddatgelu twyll.



Pa mor hir yr ydym ni'n cadw eich cofnodion a'ch gwybodaeth

Rydym yn parchu eich preifatrwydd a byddwn yn cadw eich gwybodaeth yn ddiogel.

Byddwn y fel arfer yn cadw cofnod o'ch gwybodaeth am 6 mlynedd ar ôl i ni stopio gweithio gyda'n gilydd.

Beth na fyddwn ni'n ei wneud: Ni fyddwn yn

- Anfon hysbysebion diangen i chi
Gwerthu eich data i drydydd parti
Pasio eich data personol ymlaen i drydydd parti amherthnasol.



Gallwn basio eich manylion ymlaen os

- Caiff ei ganiatáu
- Cael gwneud hynny yn ôl y gyfraith
- Cawn eich caniatâd chi i wneud hynny



Eich hawliau chi, yr hawl i gwyno a'r ICO.

Mae gennych chi hawl i wneud cais am y data yr ydym yn ei gadw amdano.

Cysylltwch â post@grwpcynefin.org os ydych chi'n dymuno cael eich gwybodaeth personol.

Byddwn bob amser yn ceisio ateb eich cwestiwn fel rhan o'n gwasanaeth.

Byddwn yn ymateb o fewn 30 diwrnod calendr.



Bydd yn helpu os gallwch chi ddweud wrthym pa ddata personol yr ydych chi eisiau ei weld.



Am beth mae'n sôn ac erbyn pryd yr ydych ei angen. Bydd hyn yn helpu'r broses.



Mae gennych hawl i gywiro'r wybodaeth yr ydym yn ei gadw.

Hysbyswch ni o unrhyw newid neu gywiriadau drwy gysylltu â'r Tîm

Gwasanaethau Cwsmer ar

0300 111 2122 neu drwy e-bost i

post@grwpcynefin.org.

Gallwch dynnu'n ôl eich caniatâd ar gyfer defnyddio eich gwybodaeth. Gadewch i ni wybod os ydych chi eisiau tynnu caniatâd yn ôl drwy gysylltu â post@grwpcynefin.org

Mae gennych hawliau eraill y gallwch eu gweld drwy ymweld â gwefan **Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (Information Commissioner's Office [ICO])** a darllen am gyfraith Diogelu Data yn <https://ico.org.uk>



Mae gennych hawl i gwyno am unrhyw beth a wnawn. Mae hyn yn cynnwys sut rydym ni'n defnyddio eich data personol:

- Yn gyntaf, cysylltwch â'n Tîm Gwasanaethau Cwsmer ar 0300 111 2122 neu e-bostiwch post@grwpcynefin.org
- Os ydych chi'n dal yn anhapus gyda'n gwasanaeth, gallwch gwyno wrth yr Ombudsmon Gwasanaethau Cyhoeddus drwy <http://www.housing-ombudsman.org.uk/>.
- Os ydych eisiau cwyno am ein defnydd o'ch data personol, gallwch gwyno wrth Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth y DU (ICO) yn <https://ico.org.uk/>



Gwybodaeth bellach

Am wybodaeth bellach am Grŵp Cynefin, gweler ein gwefan www.grwpcynefin.org neu cysylltwch â'r Tîm Gwasanaethau Cwsmer.

Newidiadau i'n Hysbysiad Preifatrwydd

Caiff ein Hysbysiad Preifatrwydd ei ddiweddarau'n rheolaidd, a chafodd y fersiwn hon ei diweddarau ar 25 Mai 2018. Mae'r fersiwn lawn ddiweddaraf ar gael ar ein gwefan www.grwpcynefin.org

